

Hawdd ei Ddeall

Welsh Labour  Llafur Cymru

Llafur Cymru

Beth fyddwn ni'n ei wneud os byddwn ni'n ennill
Etholiad Cyffredinol 2019



Cafodd y maniffesto yma ei ysgrifennu gan Llafur Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'n **Maniffesto Etholiad Cyffredinol 2019 – Crynodeb**.

Rhagfyr 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Ond efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddeall a darllen y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd i'w deall. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 20**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Plaid Lafur Cymru**. Gallwch gysylltu gyda ni ar:

Cyfeiriad: Llafur Cymru

1 Heol Cathedral

Caerdydd, CF11 9HA

E-bost: wales@labour.org.uk



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

| | |
|---------------------------------------|-----------|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma | 2 |
| Am ein maniffesto | 4 |
| Pobl a'r amgylchedd | 8 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 10 |
| Iechyd | 11 |
| Addysg | 12 |
| Diogelwch | 13 |
| Y Post ac Ynni | 14 |
| Tlodi a chydraddoldeb | 15 |
| Brexit | 18 |
| Gweithio gyda gwledydd eraill | 19 |
| Geiriau anodd | 20 |

Am ein maniffesto



Mae'r etholiad ar 12 Rhagfyr 2019 yn fwy pwysig nag erioed.




Mae'r blaid Geidwadol wedi gwneud toriadau mawr yng Nghymru.



Mae'r rheolau maen nhw wedi eu gwneud wedi gwneud niwed i'n cymunedau. Ac i'r **amgylchedd**.



Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeilid, pysgod.



Dyma ein cyfle i gywiro pethau.



Rydyn ni'n poeni am bawb. Nid dim ond pobl sydd yn gyfoethg.

Rydyn ni eisiau gwneud pethau fel:



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn ennill o leiaf £10 yr awr.



- Stopio **contractau oriau sero**.

Contractau oriau sero ydy pan nad oes rhaid i gyflogwr roi nifer set o oriau i chi i'w gweithio bob wythnos. Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl efallai yn ennill digon o arian rhai wythnosau.



- Helpu'r **amgylchedd** a delio gyda **newid hinsawdd**.



Hinsawdd ydy tueddiadau tywydd yn yr hir dymor. Mae **Newid Hinsawdd** yn meddwl newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a dŵr yn mynd yn fwy cynnes.



Mae'r blaid Geidwadol eisiau:



- Gwerthu'r GIG



- Stopio gweithwyr rhag cael hawliau



- Rhoi gwneud arian o flaen achub yr amgylchedd.



- Parhau i dorri **gwasanaethau cyhoeddus**.

Gwasanaethau cyhoeddus ydy gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Er enghraifft: ysgolion, y GIG, yr heddlu a thân ac achub.



Mae'r maniffesto yma am beth fyddwn ni'n ei wneud os ydyn ni'n ennill yr etholiad ar 12 Rhagfyr.



Rydyn ni'n sefyll i fyny dros Gymru a phobl Cymru. Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith da yng Nghymru. Er enghraifft:



- Cadw'r GIG am ddim



- Gwneud yn siŵr bod yna lawer o swyddi



- Rhoi llawer o arian i ysgolion a cholegau



- Helpu'r iaith Gymraeg i dyfu



- Helpu'r [amgylchedd](#).

Ac os ydyn ni'n ennill yr etholiad rydyn ni'n gallu gwneud llawer mwy.

Pobl a'r amgylchedd



Mae 2 broblem fawr iawn rydyn ni'n eu wynebu heddiw:

1. Y niwed sydd yn cael ei wneud in **hamgylchedd**.



2. Pobl yn byw mewn **tlodi**.

Tlodi ydy pan nad oes gan bobl ddigon o arian i fyw'n dda. A dydyn nhw ddim yn gallu cael gwasanaethau da. Fel gofal iechyd ac addysg.



Rydyn ni eisiau arwain y byd wrth ymladd **newid hinsawdd**.



Rydyn ni eisiau swyddi da i wneud yn siŵr bod pobl yn byw'n dda.



Ac rydyn ni eisiau i bawb gael eu trin yn deg.



Rydyn ni'n galw'r gwaith yma yn **Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd**.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yna lawer o swyddi newydd. Fe fyddwn ni'n gweithio i gael mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a hyfforddi ar gyfer swyddi.



Rydyn ni eisiau defnyddio ynni sydd ddim yn niweidio'r **amgylchedd**. Rydyn ni'n gwneud mwy o waith ar hyn nag unrhyw le arall yn y DU. Ac rydyn ni wedi gosod nodau mawr i ni ein hunain ar gyfer hyn.



Mae gennym ni gynllun cryf i wella trafnidiaeth yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i bawb gael **band eang ffibr llawn** am ddim yng Nghymru.



Band eang ffibr llawn ydy ffordd o gael y rhyngrwyd yn gyflym.

Gwasanaethau cyhoeddus



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn cael eu talu gydag arian y dreth.



Mae **gwasanaethau cyhoeddus** yn gwella bywydau pobl.



Yng Nghymru mae'r GIG wedi aros am ddim yn gyfan gwbl. Er enghraifft dydy pobl ddim yn gorfod talu am feddyginiaeth.



Mae'r Blaid Geidwadol wedi torri llawer o arian oddi wrth Gymru.



Rydyn ni'n gallu newid hyn gyda Llywodraeth Lafur DU. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein **gwasanaethau cyhoeddus** y gorau yn y byd.



Fe fyddwn ni'n talu am hyn drwy wneud yn siŵr bod pobl yn talu swm teg o dreth. A thrwy gael pobl gyda llawer o arian i dalu rhagor o dreth.

Iechyd

Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith da i wella:



- Cyllid GIG



- Staff GIG



- Gwasanaethau iechyd meddwl



Rydyn ni nawr yn gwneud yn siŵr bod iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu pobl a gweithwyr.

Addysg



Mae gwaith wedi cael ei wneud i wneud ysgolion yn well. A gwella sgiliau Mathemateg a Saesneg disgyblion.



Rydyn ni'n mynd i wella beth mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol.



A rhoi arian i addysg i ddisgyblion dros 16 oed.



Mae myfyrwyr prifysgol yng Nghymru yn cael y gefnogaeth orau yn y DU nawr oherwydd llywodraeth Lafur yng Nghymru.

Ceidiwadi



Os ydy Llafur yn ennill yr etholiad cyffredinol rydyn ni'n gallu gwneud addysg prifysgol am ddim.

Diogelwch



Rydyn ni wedi talu am 500 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol ers 2012. Maen nhw'n helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel.



Gyda llywodraeth Lafur DU rydyn ni'n gallu rhoi mwy o heddlu ar y strydoedd.



Rydyn ni wedi gwneud deddfau i helpu i gadw menywod yn ddiogel rhag trais a chamdriniaeth.

Y Post ac Ynni



Mae rhai **gwasanaethau cyhoeddus** yn cael eu rhedeg nawr gan gwmnïau preifat i wneud arian. Er enghraifft:



- Gwasanaethau post.



- Ynni – fel nwy a thrydan.



Rydyn ni'n mynd i newid hyn i arbed arian i bobl. Rydyn ni eisiau i'r gwasanaethau yma fod yn gyhoeddus.

Tlodi a chydoddoldeb



Fe ddylai pawb allu fforddio bywyd da.



O dan y Llywodraeth Geidwadol mae llawer o bobl yn byw mewn **tlodi**. Hyd yn oed os ydyn nhw'n gweithio.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg. A bod eu lleisiau yn cael eu clywed.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu talu'n deg ac yn gallu fforddio byw yn dda.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan weithwyr hawliau.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn ennill o leiaf £10 yr awr.



Fe fyddwn ni'n stopio **contractau oriau sero**.



Fe fyddwn ni'n gwneud i **dâl mamolaeth** bara am 12 mis yn lle dim ond 9 mis.



Tâl mamolaeth ydy'r tâl mae menywod yn ei gael pan maen nhw'n cael babi. Ac angen aros adref o'r gwaith i edrych ar ôl eu babi.



Fe fyddwn ni'n stopio **Credyd Cynhwysol** a newid i system gwell.

Credyd Cynhwysol ydy'r system sydd yn cael ei defnyddio i hawlio budd-daliadau.



Fe fyddwn ni'n adeiladu llawer o dai newydd yng Nghymru. Ac yn helpu pobl i brynu cartrefi.



Rydyn ni wedi stopio'r cynllun Hawl i Brynu. Dyma'r cynllun sydd yn gadael i bobl brynu eu tŷ cyngor. Mae hyn yn meddwl bod mwy o dai cyngor ar gael.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod adeiladau gwag yn cael eu defnyddio eto.



Rydyn ni wedi stopio gwerthwyr tai rhag codi ffioedd pan mae pobl yn rhentu cartref.

Brexit



Brexit ydy'r gair sydd yn cael ei ddefnyddio i siarad am Prydain yn gadael yr **Undeb Ewropeaidd**.



Yr **Undeb Ewropeaidd** ydy grŵp o wledydd lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.



O fewn 3 mis or etholiad fe fydd gennym fargen synhwyrol ar gyfer Brexit.



O fewn 6 mis i'r etholiad fe fyddwn yn rhoi'r cyfle i chi bleidleisio ar beth rydych chi eisiau ei wneud.



Rydych chi'n gallu peidleisio dros ein bargaen ni. Neu pleidleisio i aros yn yr **Undeb Ewropeaidd**.



Mae Llafur Cymru yn credu y dylen ni aros yn yr **Undeb Ewropeaidd**. Ond chi, y cyhoedd, sydd i benderfynu. Dyma fydd y bleidlais olaf ar Brexit. Fe fydd rhaid inni ddilyn y canlyniad yn ôl y gyfraith. Ni ydy'r unig blaid fydd yn gwneud hyn.

Gweithio gyda gwledydd eraill



Fe fyddwn ni bob amser yn gwneud yn siŵr bod y bobl yn y DU yn ddiogel.



Mae gwneud yn siŵr bod heddwch a diogelwch yn yr holl fyd yn rhan bwysig o'n gwaith.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg dros y byd i gyd.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein rheolau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel wedi eu seilio ar ffeithiau.

Geiriau Anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeilid, pysgod.

Band eang ffibr llawn

Band eang ffibr llawn ydy ffordd o gael y rhyngwrwyd yn gyflym.

Contractau oriau sero

Contractau oriau sero ydy pan nad oes rhaid i gyflogwr roi nifer set o oriau i chi i'w gweithio bob wythnos. Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl efallai yn ennill digon o arian rhai wythnosau.

Credyd Cynhwysol

Credyd Cynhwysol ydy'r system sydd yn cael ei defnyddio i hawlio budd-daliadau.

Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth. Er enghraifft: ysgolion, y GIG, yr heddlu a thân ac achub.

Newid hinsawdd

Hinsawdd ydy tueddiadau tywydd yn yr hir dymor. Mae Newid Hinsawdd yn meddwl newidiadau i batrymau tywydd y byd fel ein aer a dŵr yn mynd yn fwy cynnes.

Tâl mamolaeth

Tâl mamolaeth ydy'r tâl mae menywod yn ei gael pan maen nhw'n cael babi. Ac angen aros adref o'r gwaith i edrych ar ôl eu babi.

Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan bobl ddigon o arian i fyw'n dda. A dydyn nhw ddim yn gallu cael gwasanaethau da. Fel gofal iechyd ac addysg.

Undeb Ewropeaidd

Yr Undeb Ewropeaidd ydy grŵp o wledydd lle mae eu llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd.